Adferiad

Ymgynghoriad: Blaenoriaethau i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ymateb Adferiad

09/09/26

1. A yw blaenoriaethau iechyd a gofal Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r heriau mwyaf sylweddol sy'n wynebu cymunedau ar draws Cymru?

   Ateb
   Yn gyffredinol, mae Adferiad yn croesawu ffocws Llywodraeth Cymru ar ataliaeth, gofal cymunedol, integreiddiad, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol, cynaliadwyedd y gweithlu a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu nifer o'r heriau rydym yn eu gweld drwy ein gwaith yn cefnogi pobl a effeithir gan salwch meddwl, defnydd sylweddau, digartrefedd, cyfrifoldebau gofalu ac anghenion cymhleth sy'n cyd-ddigwydd.

   Er hynny, credwn bod angen ystyried y blaenoriaethau fel rhan o system gysylltiedig yn hytrach na fel meysydd polisi unigol. Mae pobl sydd ag anghenion cymhleth yn symud yn aml rhwng gwasanaethau iechyd meddwl, defnydd sylweddau, tai, gofal cymdeithasol, gofal sylfaenol ac eraill. Ble mae'r systemau hyn yn fratiog, gall pobl brofi oediadau, asesiadau dro ar ôl tro, llwybrau atgyfeirio aneglur a bylchau mewn cefnogaeth. Felly, dylid barnu llwyddiant diwygiad iechyd a gofal cymdeithasol, yn rhannol, yn ôl pa mor effeithiol mae'n gwella profiad pobl o lywio'r systemau hyn.

   Croesawn yn arbennig y pwyslais ar ataliaeth a chefnogaeth gymunedol. Mae angen i ataliaeth gynnwys ymyrraeth gynnar hygyrch, nid gweithredu a fwriedir i leihau'r galw ar ysbytai yn unig. Dylai pobl allu cael mynediad i gefnogaeth briodol cyn i'w hamgylchiadau waethygu i'r pwynt argyfwng. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn iechyd meddwl a defnydd sylweddau, ble gall cefnogaeth gynnar a hygyrch atal lefelau angen uwch rhag datblygu.

   Croesawn hefyd y ffocws ar gryfhau gwasanaethau iechyd meddwl. Dylai iechyd meddwl gael cydraddoldeb gyda iechyd corfforol a dylid ei drin fel cydran ganolog o iechyd a llesiant pobl. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl sydd â salwch meddwl difrifol ac anghenion cymhleth, a all brofi rhwystrau sylweddol wrth geisio cael mynediad i'r gefnogaeth briodol.
   Dylid hefyd ymdrin â iechyd meddwl a defnydd sylweddau fel blaenoriaethau iechyd cyhoeddus. Mae pobl sy'n byw gyda materion defnydd sylweddau, yn cynnwys y rhai hynny gydag anghenion iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, angen cefnogaeth cyd-gysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y person yn hytrach na chael eu pasio rhwng systemau ar wahân.

   Mae cynaliadwyedd y gweithlu a chyllido tymor hir yr un mor bwysig. Ni ellir cynnal gwasanaethau o ansawdd uchel heb weithlu sefydlog, cyflog ac amodau priodol, cynllunio gweithlu effeithiol, a threfniadau cyllido sy'n galluogi sefydliadau i gynllunio y tu hwnt i gylchdroadau tymor byr.

   Yn olaf, dylai profiadau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr di-dâl fod yn ganolog i asesu os yw'r blaenoriaethau yma yn gweithio. Mae angen i uchelgais polisi drosi i mewn i welliannau y gall pobl eu gweld a'u profi yn eu bywydau pob dydd.

2. Oes yna unrhyw flaenoriaethau pwysig ar goll?

   Ateb:

Tra rydym, yn gyffredinol, yn cefnogi'r blaenoriaethau a nodwyd, credwn bod nifer o feysydd sydd angen mwy o amlygrwydd.

Dylai integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl a defnydd sylweddau fod yn flaenoriaeth benodol. Gall pobl sydd ag anghenion sy'n cyd-ddigwydd gael eu hunain yn llywio systemau ar wahân gyda gwahanol feini prawf cymhwysedd, llwybrau atgyfeirio a dulliau. Dylid dylunio gwasanaethau o gwmpas anghenion yr unigolyn yn hytrach na ffiniau sefydliadol, gydag ymagweddau amlddisgyblaethol ble'n briodol.

Mae mynediad i gefnogaeth hefyd angen sylw. Mae ehangu gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau yr un diwrnod yn bositif, ond dylai hygyrchedd gwmpasu mwy na bodolaeth gwasanaeth. Dylai pobl allu deall i ble i fynd am help, gael mynediad i gefnogaeth heb rwystrau diangen a derbyn ymyrraeth briodol beth bynnag yw'r rhan o'r system maent yn mynd iddi i ddechrau.

Dylid bod mwy o bwyslais ar y fframwaith ddeddfwriaethol sy'n llywodraethu iechyd meddwl a defnydd sylweddau hefyd. Mae unigolion a effeithir gan y systemau hyn angen hawliau ac amddiffyniadau eglur. Dylai'r ddeddfwriaeth fod yn gydlynol, yn hygyrch ac yn seiliedig ar yr egwyddorion lleiaf cyfyngol posibl, gyda iechyd meddwl a defnydd sylweddau yn cael eu trin gyda'r cydraddoldeb priodol.

Dylid cydnabod gofalwyr di-dâl fel partneriaid mewn gofal yn hytrach nac fel rhai sy'n derbyn cefnogaeth ar wahân yn unig. Dylai gofalwyr gael ymgysylltiad ystyrlon mewn cynllunio gofal a thriniaeth, ble'n briodol, a dylid eu hadnabod yn gynnar a'u cysylltu i gefnogaeth eu hunain. Dylid datblygu gwasanaethau a pholisïau gyda gofalwyr a phobl gyda phrofiad byw yn hytrach na'u hymgynghori pan mae penderfyniadau eisoes wedi eu gwneud.

Credwn hefyd bod cynllunio a chydlyniad gofal a thriniaeth yn haeddu mwy o sylw. Nid yw cynlluniau'n effeithiol oni bai eu bod yn ystyrlon, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cydlynu'n iawn. Gallai cydlyniad annibynnol drwy sefydliadau trydydd sector roi mwy o gysondeb a helpu i sicrhau bod safbwyntiau, amgylchiadau a deilliannau yn parhau i fod yn ganolog.

Yn olaf, dylai cyllido a chomisiynu tymor hir fod yn fwy amlwg. Gall cyllido tymor byr a bratiog danseilio dilyniant gwasanaeth, cadw'r gweithlu, a datblygiad ymagweddau ataliol. Mae cyllido cynaliadwy yn sylfaenol i ddarparu llawer o uchelgeisiau eraill y Llywodraeth.

3. Beth yw'r prif rwystrau i ddarparu'r blaenoriaethau hyn ac i fesur cynnydd?

Ateb:
Mae'n debygol mai'r prif her fydd i drosi uchelgais polisi i ddarpariaeth gyson ar draws system iechyd a gofal cymdeithasol gymhleth. Mae llawer o'r blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru angen cydweithrediad rhwng byrddau iechyd, awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector, a phartneriaid eraill. Ble mae cyfrifoldebau, ffrydiau cyllido, a threfniadau comisiynu yn parhau i fod yn fratiog, gall integreiddiad gwirioneddol fod yn anodd i'w gyflawni.

Mae pwysau gweithlu hefyd yn rwystr sylweddol. Mae recriwtio, cadw staff, gyflogau ac amodau gwaith i gyd yn effeithio ar allu gwasanaethau i gynnal y ddarpariaeth bresennol tra hefyd yn ymgymryd â thrawsnewid. Mae angen, felly, i ystyried cynllunio'r gweithlu ochr yn ochr â diwygio'r gwasanaeth yn hytrach na fel gwasanaeth ar wahân.

Mae cyllid hefyd yn hanfodol. Gall cylchdroadau tymor byr ei gwneud yn anodd i sefydliadau i gadw staff profiadol, i ddatblygu gwasanaethau ac i fuddsoddi mewn dulliau ataliol. Byddai trefniadau cyllido cynaliadwy, tymor hirach yn rhoi mwy o sefydlogrwydd ac yn cefnogi cynllunio gwell.

Yn ogystal, mae yna heriau o gwmpas rhannu data a systemau gwybodaeth. Efallai y bydd angen i bobl ag anghenion cymhleth ddarparu yr un wybodaeth dro ar ôl tro i wahanol wasanaethau, gan arwain i rwystredigaeth, oedi, a dyblygiad. Gallai ymagwedd "Dwedwch Wrthym Unwaith", ynghyd â rhannu data sy'n briodol ac yn ddiogel, wella profiad pobl tra'n cefnogi gwell cydlyniad rhwng gwasanaethau.

Dylai mesur cynnydd hefyd ehangu y tu hwnt i ddata gweithgarwch ac amseroedd aros. Mae'r mesurau hyn yn bwysig, ond nid ydynt o angenrheidrwydd yn dangos os yw pobl yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt neu'n cyflawni gwell deilliannau.

Dylai gwerthuso ystyried os yw pobl yn gallu cael mynediad i gefnogaeth pan maent ei hangen, os yw gwasanaethau yn lleihau anghydraddoldebau, os yw pobl yn profi gwell dilyniant a chydlyniad, ac os yw unigolion yn teimlo eu bod yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am eu gofal. Dylai'r bobl â phrofiad byw, gofalwyr di-dâl a staff rheng flaen ffurfio rhan o'r gwerthuso rheolaidd ac ni ddylid eu trin fel ffynhonnell dystiolaeth ychwanegol neu opsiynol.

Mae angen mwy o gysondeb hefyd yn sut y mesurir deilliannau ar draws sectorau. Os yw sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector yn defnyddio gwahanol fesurau, gall fod yn anodd i ddeall os yw'r system yn ei chyfanrwydd yn gwella.

4. Ar beth ddylai'r Pwyllgor ganolbwyntio i wneud y gwahaniaeth mwyaf?

Ateb:
Dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar weld a yw ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn trosi i welliannau ystyrlon ym mhrofiadau pobl o iechyd a gofal cymdeithasol.

Dylai integreiddiad fod yn faes allweddol, yn enwedig rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a defnydd sylweddau ac ar draws darpariaeth iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol. Dylai'r Pwyllgor archwilio os yw pobl sydd ag anghenion cymhleth neu anghenion sy'n cyd-ddigwydd yn profi llwybrau mwy cyd-gysylltiedig, yn hytrach nac archwilio os yw gwasanaethau unigol yn cyfarfod eu targedau eu hunain.

Dylai'r Pwyllgor hefyd archwilio os yw'r symudiad tuag at ataliaeth a gofal cymunedol yn arwain i fynediad cynharach i gefnogaeth. Ni ddylid mesur ataliaeth yn ôl gostyngiadau mewn galw ar ysbytai yn unig, dylid bod tystiolaeth hefyd bod pobl yn derbyn y gefnogaeth briodol cyn cyrraedd eu pwynt argyfwng.

Dylai mynediad a chydraddoldeb fod yn flaenoriaeth arall. Dylai'r Pwyllgor ystyried os yw diwygiadau yn cyrraedd pobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i wasanaethau, yn cynnwys pobl gyda salwch meddwl difrifol, anghenion defnydd sylweddau, anghenion cymhleth a'r rhai sy'n profi digartrefedd neu fathau eraill o anfantais.

Dylai cynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol barhau i gael ei graffu arno, yn cynnwys recriwtio, cadw staff, cyflogau, amodau gwaith a mynediad i hyfforddiant a datblygiad priodol. Mae pwysau gweithlu yn effeithio'n uniongyrchol ar y gallu i gyflawni diwygio.

Agwedd arall y dylai'r Pwyllgor ei hystyried yw archwilio os yw trefniadau comisiynu a chyllido yn cefnogi cynaliadwyedd tymor hir gwasanaethau. Bydd diwygiadau uchelgeisiol yn anodd i'w cyflawni pan mae sefydliadau yn gweithio o fewn trefniadau cyllido tymor byr neu fratiog.

Yn olaf, dylid bod rôl ystyrlon i unigolion â phrofiad byw a gofalwyr di-dâl wrth asesu os yw diwygiadau yn gweithio. Dylai'r Pwyllgor ystyried os yw'r bobl hyn yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, yn cael eu cynnwys, ac yn gallu cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, yn hytrach nac ar yr hyn mae gwasanaethau'n eu darparu yn unig.

Yn y pen draw, dylai craffu ganolbwyntio ar y gwahaniaeth mae polisi yn ei wneud yn ymarferol. Mae gan y Pwyllgor rôl bwysig i brofi os yw ymrwymiadau yn cael eu gweithredu'n gyson, os yw adnoddau yn cyrraedd yr ardaloedd â'r angen mwyaf, ac os yw'r bobl a chymunedau mae'r gwasanaethau hyn yn bodoli i'w cefnogi yn profi gwelliannau.